# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Arlwyo mewn Ysbytai

## Bwrdd Iechyd Cwm Taf

**Cyhoeddwyd:** Mai 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 157A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cyflawnwyd y gwaith gan Gabrielle Smith.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu ein hargymhellion mewn perthynas â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Atodiadau | |
| Canfyddiadau manwl yr archwiliad | 7 |
| Argymhellion a wnaethpwyd yn 2011 | 19 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion o ystyried bod prydau maethlon o ansawdd da yn rhan hanfodol o'r broses adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau'n drwyadl, gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau i wardiau a chleifion. Mae angen cyfathrebu da ar draws y grwpiau amrywiol o staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.

**2.** Dylai'r canlyniad dymunol fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n cynnig dewis da o brydau maethlon i ddiwallu gofynion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maeth cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu prydau mewn amgylchedd sy'n eu hannog i fwyta.

**3.** Ym mis Ebrill 2010, cynhaliwyd gwaith ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) i ddarganfod a oedd Ysbyty Brenhinol Morgannwg (YBM) ac Ysbyty'r Tywysog Siarl (YTS) yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon gan ddilyn arferion da cydnabyddedig. Ystyriwyd pob rhan o 'gadwyn fwyd' arlwyo ysbytai, o gynllunio a chaffael, i ddosbarthu bwyd i'r ward a'r cleifion a rheoli amser bwyd. Yr adeg honno, daethom i'r casgliad fod y trefniadau ar gyfer y gwasanaethau arlwyo yn gadarn ar y cyfan, er bod cost y gwasanaethau arlwyo yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd, ac er bod lefelau uchel o foddhad ymysg cleifion, roedd angen i agweddau ar brofiad y claf a sgrinio maethol wella. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd y gwaith o ailgynllunio'r gwasanaethau arlwyo yn mynd rhagddo'n dda;
- roedd y trefniadau ar gyfer cynhyrchu bwyd a rheoli costau'n gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd methiant i adennill costau arlwyo y gwasanaethau nad oeddent yn wasanaethau i gleifion yn 2008-09 wedi arwain at gostau net uwch na'r cyfartaledd, a chostau YBM oedd yr uchaf yng Nghymru;
- roedd y trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i wardiau ac i gleifion yn effeithiol ar y cyfan ond roedd lle i ddarparu canllawiau syml ar hylendid bwyd sylfaenol [i staff nyrsio] ac i wella rhai agweddau ar brofiad cleifion yn ystod amser bwyd;
- roedd gwasanaeth arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn hyblyg ac yn arloesol gan sicrhau bod y rhan fwyaf o gleifion yn cael y maeth yr oedd ei angen arnynt ond nid oedd y sgrinio maethol pan dderbyniwyd claf i'r ysbyty a chynlluniau gofal i reoli risgiau maethol yn gynhwysfawr;
- aed ati i gasglu barn cleifion ac roedd y boddhad cyffredinol â'r gwasanaethau arlwyo yn gymharol uchel.

**4.** Gwnaethom nifer o argymhellion manwl yr adeg honno[1], a adlewyrchwyd hefyd yn ein hadroddiad cenedlaethol[2] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011. Nod ein hargymhellion oedd gwella cydymffurfiaeth â sgrinio maethol a gweithdrefnau cynllunio gofal a diogelwch bwyd, yn ogystal â gwella systemau rheoli costau arlwyo a gwella profiad y claf.

**5.** Rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2012, fel rhan o'n rhaglen o waith archwilio lleol, ymchwiliwyd i a oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein hargymhellion. Daethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion mewn perthynas â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae costau hanesyddol uchel y gwasanaethau arlwyo yn lleihau ond mae gwahaniaeth amlwg o hyd rhwng costau arlwyo yn y ddau brif ysbyty, yn rhannol oherwydd bod y model coginio a rhewi yn parhau i gael ei roi ar waith yn Ysbyty'r Tywysog Siarl;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn adennill cyfran lawer uwch o gostau gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion ond gall gymryd cryn amser cyn bod y gwasanaethau hyn yn adennill yr holl gostau;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau gwastraff bwyd ac mae bellach yn cydymffurfio'n gyfforddus â'r targed gwastraff bwyd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru;
- mae staff wardiau yn parhau i gydymffurfio ag arferion hylendid bwyd sylfaenol ond mae cydymffurfiaeth wael â'r pecyn e-ddysgu MUST[3] yn golygu nad yw'r staff nyrsio'n defnyddio'r canllawiau cyffredinol ar hylendid bwyd;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella profiadau cleifion yn ystod amser bwyd; mae cydymffurfiaeth â sicrhau bod amser bwyd wedi'i ddiogelu wedi gwella, ac mae staff nyrsio ar gael yn gyffredinol i helpu cleifion ar yr adeg gywir;
- ceir gwelliannau o ran gofal maethol gyda chleifion yn cael eu sgrinio pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty ond nid oes cynlluniau gofal maeth ar waith bob tro ac mae cydymffurfiaeth â'r pecyn e-ddysgu MUST yn wael.

***6.*** Ceir crynodeb o ganfyddiadau manwl ein gwaith dilynol yn Atodiad 1. Ceir crynodeb o argymhellion ein harchwiliad gwreiddiol yn Atodiad 2.

---

[1] Gellir gweld yr argymhellion yn *Arlwyo mewn Ysbytai* yn http://www.wao.gov.uk/assets/Local_Reports_Welsh/Cwm_Taf_HB_Hospital_Catering_Welsh.pdf

[2] Gellir gweld yr argymhellion yn *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai* yn http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/HC_Report_Welsh.pdf

[3] Cynlluniwyd yr Offeryn Sgrinio Cyffredinol ar gyfer Diffyg Maeth (MUST) gan Grŵp Cynghori ar Ddiffyg Maeth Cymdeithas Brydeinig Maethiad drwy'r Gwythiennau a'r Ymysgaroedd, fel ffordd effeithiol o nodi oedolion (yn enwedig yr henoed) sy'n dioddef diffyg maeth, yn wynebu risg o ddiffyg maeth, neu sy'n ordew.

# Argymhellion

**7.** Mae nifer o argymhellion wedi deillio o'r adolygiad dilynol. Rhestrir y rhain isod.

| | |
|---|---|
| A1 | **Ceir gwahaniaethau o ran costau'r gwasanaethau arlwyo i gleifion rhwng YBM ac YTS o hyd ac nid yw'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyoi i gleifion wedi adennill eu costau hyd yma**. Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i fonitro'r gwahaniaeth o ran costau'r gwasanaeth arlwyo i gleifion a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion yn adennill eu costau cyn gynted â phosibl. |
| A2 | **Nid oes cynlluniau gofal maeth ar waith bob tro**. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys adolygiad o sampl o gynlluniau gofal wrth gynnal archwiliadau ar hap o urddas, amser bwyd wedi'i ddiogelu a sgrinio maethol. |
| A3 | **Mae cydymffurfiaeth â'r pecyn e-ddysgu a gyflwynwyd yn 2011 i gefnogi gwelliannau wrth ddefnyddio MUST a siartiau bwyd Cymru gyfan yn wael**.<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• ymchwilio i faint o amser sydd ei angen i gwblhau'r pecyn e-ddysgu;<br>• sicrhau bod staff nyrsio naill ai'n cael digon o amser i gwblhau'r pecyn e-ddysgu mewn un sesiwn, neu atgoffa'r staff nyrsio y gellir ei gwblhau yn ystod diwrnodau dilynol;<br>• cynnwys y pecyn e-ddysgu mewn hyfforddiant cynefino i newydd-ddyfodiaid. |

# Atodiad 1

## Canfyddiadau manwl yr archwiliad

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
| --- | --- |
| A yw'r rhesymau dros gostau arlwyo uwch na'r cyfartaledd wedi'u nodi ac a aethpwyd i'r afael â hwy? | **Mae costau hanesyddol uchel y gwasanaethau arlwyo yn lleihau ond mae gwahaniaeth amlwg o hyd rhwng costau arlwyo yn y ddau brif ysbyty, yn rhannol oherwydd bod y model coginio a rhewi yn dal i gael ei gyflwyno yn Ysbyty'r Tywysog Siarl**<br>***Mae camau gweithredu parhaus gan y Bwrdd Iechyd i adolygu cost-effeithiolrwydd gwasanaethau arlwyo yn helpu i leihau'r gost uchel fesul diwrnod claf yn YBM***<br>Penderfynodd Llywodraeth Cymru weithredu model wedi'i gostio ar gyfer gwasanaethau arlwyo yn 2012, a ategir gan gyfres newydd o ddiffiniadau data ar gyfer y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS). Dibynnwyd ar y system EFPMS i gael y wybodaeth gymharol ddiweddaraf am gostau'r gwasanaethau arlwyo ar gyfer ein gwaith dilynol. Dengys Arddangosyn 1 fod cyfanswm cost gwasanaethau arlwyo i gleifion yn YBM ac YTS wedi codi 14 y cant o £3.17 miliwn yn 2008-09 i £3.62 miliwn yn 2011-12. Ymddengys fod y cynnydd mewn costau yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn costau 'eraill', h.y. defnyddiau traul, ond nid yw'n glir pam y gwnaeth y costau 'eraill' hyn gynyddu mor sydyn. Mae newidiadau mewn costau ar gyfer darpariaethau a staff wedi effeithio'n wahanol ar y ddau ysbyty dros y pedair blynedd diwethaf gyda chostau darpariaethau'n cynyddu lawer mwy yn YBM o gymharu ag YTS, ac roedd costau staff wedi lleihau yn YBM ac wedi cynyddu yn YTS. |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|

**Arddangosyn 1: Newid yng nghostau elfennau o'r gwasanaethau arlwyo i gleifion**

| Ysbyty | | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | Newid canrannol rhwng 2008-09 a 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **YBM** | Staff | £1,378,430 | £1,525,862 | £1,230,271 | £1,348,371 | -2% |
| | Darpariaethau | £711,006 | £758,165 | £746,092 | £825,638 | 16% |
| | Costau eraill | £67,086 | £66,103 | £78,024 | £139,231 | 108% |
| **Cyfanswm** | | **£2,156,522** | **£2,350,130** | **£2,054,387** | **£2,313,240** | **7%** |
| **YTS** | Staff | £604,316 | £720,928 | £681,442 | £835,677 | 38% |
| | Darpariaethau | £395,445 | £355,395 | £391,838 | £398,840 | 1% |
| | Costau eraill | £17,984 | £14,619 | £43,960 | £71,639 | 298% |
| **Cyfanswm** | | **£1,017,745** | **£1,090,942** | **£1,117,240** | **£1,306,156** | **28%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystâd y GIG yng Nghymru 2011-12 a data a ddarparwyd fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol yn 2010*

Yn 2010, nodwyd mai costau arlwyo fesul diwrnod claf YBM oedd yr uchaf yng Nghymru. Rhagdybiwyd bod y costau uwch yn YBM yn deillio o'r costau staff sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth arlwyo hirsefydledig yn y wardiau ac y gallai'r gwahaniaethau mewn costau leihau yn y dyfodol o bosibl pan fyddai newidiadau i fandiau cyflog staff arlwyo'n dod i rym yn YTS a phan fyddai'r broses o weithredu'r model gwasanaeth arlwyo yn y wardiau wedi'i gwblhau. Efallai fod y cynnydd mewn costau staff yn YTS dros y pedair blynedd diwethaf yn adlewyrchu'r effaith hon. Adeg ein gwaith dilynol, roedd YTS yn dal i weithredu ei wasanaeth coginio/ar blât ffres traddodiadol i'r wardiau hynny a oedd yn cael eu hadnewyddu o hyd. Mae'n bosibl bod y cynnydd mewn costau staff yn YTS yn adlewyrchu cost cynnal y ddau fodel.

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
| --- | --- |
| | Fel rhan o’n gwaith dilynol, ailgyfrifwyd cost gwasanaethau arlwyo i gleifion fesul diwrnod gwely drwy ddefnyddio gwybodaeth am y diwrnodau gwely ar gyfer pob ysbyty. [Nid yw’r wybodaeth am ddiwrnodau gwely ar gyfer 2011-2 wedi'i chyhoeddi ar gyfer ysbytai unigol hyd yma; rydym wedi tybio na fu unrhyw newid yng nghyfartaledd y diwrnodau gwely a.] Dengys Arddangosyn 2 fod costau gwasanaethau arlwyo i gleifion fesul diwrnod gwely wedi lleihau rhwng y ddau ysbyty gyda'r costau'n cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn YTS ac yn lleihau yn YBM, hynny yw tan 2011-12. Nid yw'n hawdd egluro'r cynnydd mewn costau arlwyo i gleifion fesul diwrnod gwely yn YBM yn 2011-12, yn enwedig oherwydd bod y cynnydd canrannol mewn costau arlwyo i gleifion yn uwch yn YTS rhwng 2010-11 a 2011-12. |

**Arddangosyn 2: Y duedd yng nghostau gwasanaethau arlwyo i gleifion fesul diwrnod gwely**


| Ysbyty | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **YBM** | £16.62 | £15.34 | £12.84 | £14.42 |
| **YTS** | £8.23 | £9.15 | £9.82 | £11.45 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystâd y GIG yng Nghymru 2011-12, gwybodaeth am welyau'r GIG ar gael ar StatsCymru a data a ddarparwyd fel rhan o'n harchwiliad gwreiddiol yn 2010*

Un o ddangosyddion newydd y system EFPMS yw ‘cost pryd bwyd claf’, sy'n disodli’r dangosydd ‘cost prydau i glaf y dydd’. Cyfrifir y dangosydd drwy rannu costau gwasanaethau arlwyo i gleifion (h.y. costau darparu, costau cynhyrchu, costau cynorthwywyr arlwyo mewn wardiau a chostau nwyddau nad ydynt yn rhai traul) â chyfanswm nifer y prydau y gofynnir amdanynt (h.y. brecwast, cinio, swper a brechdanau). Yn 2011-12, y gost fesul pryd bwyd i gleifion yn YBM ac YTS oedd £3.71 a £3.21 yn y drefn honno, y ddau’n uwch na'r cyfartaledd (£2.92) ar gyfer ysbytai acíwt eraill (Arddangosyn 3). Fodd bynnag, mae Ystadau Iechyd Cymru yn cydnabod bod y data a gyflwynir i'r system EFPMS yn cynnwys rhai amrywiadau anghredadwy o eang o ran costau prydau cleifion, rhwng ac o fewn byrddau iechyd eraill, sy'n ystumio’r cyfartaledd. Mae Ystadau Iechyd Cymru yn rhag-weld y bydd cywirdeb y data'n gwella wrth i anawsterau sy’n gysylltiedig â defnyddio'r diffiniadau data newydd gael eu goresgyn.

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|

**Arddangosyn 3: Cost fesul pryd bwyd i glaf yn 2011-12**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystâd y GIG yng Nghymru 2011-12*

Canfu ein harchwiliad gwreiddiol yn 2010 nad oedd sefydliadau'r GIG yn gwneud defnydd digonol o ddata'r system EFPMS i adolygu cost-effeithiolrwydd a safon gwasanaethau arlwyo. Canfu ein gwaith dilynol fod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio data'r system EFPMS yn llawn i reoli a monitro gwasanaethau arlwyo a maethol ym mhob un o'i ysbytai ac i feincnodi costau yn erbyn costau byrddau iechyd eraill. Mae'r grŵp rheoli cyfleusterau wedi datblygu cerdyn sgorio cytbwys i olrhain gwariant yn erbyn y gyllideb, yn ogystal â lefel yr incwm a gynhyrchir, absenoldeb oherwydd salwch a gor-amser. Mae'r data hwn yn helpu rheolwyr i adolygu'n haws y sefydliadau y mae eu hangen er mwyn darparu gwasanaethau arlwyo o ansawdd uchel i gleifion ym mhob un o'i safleoedd.

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|
| | **Mae'r Bwrdd Iechyd yn adennill cyfran lawer uwch o gostau gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion ond gall gymryd cryn amser cyn bod y gwasanaethau hyn yn adennill yr holl gostau** |

Canfu ein harchwiliad blaenorol yn 2010 nad oedd YBM ac YTS yn cynhyrchu digon o incwm i adennill costau darparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt wasanaethau arlwyo i gleifion. Dengys Arddangosyn 4 fodd cost gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion yn YBM wedi cynyddu'n gyson rhwng 2008-09 a 2010-11 cyn lleihau yn 2011-12, ac yn YTS amrywiodd y costau o un flwyddyn i'r llall. Llwyddodd y ddau ysbyty i gynyddu eu hincwm o wasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion gan helpu i leihau'r bwlch rhwng incwm a chostau. Nododd staff y cyfwelwyd â hwy y gall gymryd hyd at dair blynedd i gau'r bwlch ac adennill costau.

**Arddangosyn 4: Y duedd yng nghanran y gwahaniaeth rhwng incwm a chostau ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion yn YBM ac YTS**

| Blwyddyn | YBM | | | YTS | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Costau | Bwlch | Incwm | Costau | Bwlch |
| 2008-09 | £770,722 | £1,114,600 | -31% | £364,451 | £813,153 | -55% |
| 2009-10 | £812,844 | £1,208,083 | -33% | £382,356 | £658,645 | -42% |
| 2010-11 | £828,382 | £1,338,092 | -38% | £496,756 | £779,170 | -36% |
| 2011-12 | £953,306 | £1,251,532 | -24% | £554,865 | £665,521 | -17% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystâd y GIG yng Nghymru 2011-12*

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|
| | Canfu adolygiad gan yr Adran Archwilio Mewnol yn haf 2012 na allai'r elw na'r golled a wneir gan fwytai ysbytai unigol gael eu meintioli'n gywir am nad oedd codau cost unigryw'n cael eu cadw ar gyfer bwytai unigol. Roedd codau cost yn cael eu cadw fesul ysbyty ar gyfer gwasanaethau arlwyo. Roedd incwm a gwariant, gan gynnwys costau staff yn ymwneud â bwytai, prydau cleifion mewnol a byrbrydau, yn cael eu nodi ynghyd â chostau dosrannu'r tîm rheoli arlwyo ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r rhai nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion wrth gyflwyno gwybodaeth i'r system EFPMS. Argymhellodd yr Adran Archwilio Mewnol y dylid creu canolfannau cost unigol a'u cynnal ar gyfer pob bwyty ysbyty i sicrhau adroddiadau cywir ar gostau a phroffidioldeb ac i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.<br>Adeg ein gwaith dilynol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu canolfannau costau ar wahân, sy'n golygu bod modd monitro elw a cholled yn well ar draws gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu amser agor mwyaf proffidiol y bwytai yn YBM ac YTS. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r system Man Gwerthu Electronig (EPoS) i fonitro nifer y trafodion ar adegau penodol o'r dydd, yn ogystal ag adolygu'r cynhyrchion mwyaf proffidiol. Yn YBM, byddai hyn yn golygu y dylai'r bwyty agor yn hwyrach a chau'n gynharach. Cyn gwneud unrhyw newid i'r oriau gweithredu, bydd angen sicrhau trefniadau eraill ar gyfer darparu bwyd poeth i'r staff hynny sy'n gweithio dros nos, e.e. meddygon iau. Adeg ein gwaith dilynol, roedd y Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i ddewisiadau eraill yn lle'r system bresennol. Yn ogystal chynnig dull arall o ddarparu prydau poeth, bydd yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud trefniadau i adleoli unrhyw staff arlwyo y bydd y newidiadau yn yr oriau gweithredu yn effeithio arnynt.<br>***Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau arlwyo ysbytai***<br>Mae'r Uned Gynhyrchu Ganolog wedi'i ehangu a'i huwchraddio'n ddiweddar i ddiwallu anghenion pob un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Mae'r uwchraddio hefyd yn cynnwys buddsoddi mewn systemau TG newydd, megis Menumark, a fydd yn darparu gwybodaeth amser real ar gostau ryseitiau, cynnwys maethol a rheoli stoc. Dywed y Bwrdd Iechyd fod Menumark yn sicrhau gwelliannau mawr i wybodaeth ac effeithlonrwydd amser real ar gyfer yr UGG, yn enwedig o ran cynhyrchu labeli maeth ar gyfer cynnyrch bwyd.<br>Mae'r Uned Gynhyrchu Ganolog wedi'i gwahanu oddi wrth y gwasanaethau arlwyo a bwytai i gleifion, ac mae bellach yn gweithredu fel 'uned fusnes annibynnol'. Caiff pob cynnyrch coginio a rhewi a gyflenwir i YBM ac YTS ei brisio i adlewyrchu cost y nwyddau a chostau cynhyrchu (h.y. costau staff a nwyddau traul megis y cynwysyddion bwyd). Fel y gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt yn wasanaethau arlwyo i gleifion, caiff perfformiad yr Uned Gynhyrchu Ganolog ei fonitro'n fanwl gan y Grŵp rheoli cyfleusterau gan ddefnyddio cerdyn sgorio cytbwys. Er mwyn aros yn gystadleuol, mae'r Uned Gynhyrchu Ganolog yn bwriadu gwneud gwaith profi'r farchnad ar ei chynnyrch gyda brandiau adnabyddus eraill. |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
| --- | --- |
| A yw'r systemau ar gyfer monitro a chofnodi gwastraff bwyd wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu heffeithiolrwydd? | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau gwastraff bwyd ac mae bellach yn cydymffurfio'n gyfforddus â'r targed gwastraff bwyd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.**<br>Yn 2010, canfuwyd nad oedd yr holl brydau heb eu gweini yn cael eu cofnodi ar 'daflen dymheredd y ward' ar ôl gweini pob pryd. Canfu ein gwaith arsylwi ar y gwasanaeth prydau bwyd amser cinio fod nifer y dognau heb eu gweini'n fach iawn ond nid oedd nifer y dognau heb eu gweini yn cael eu cofnodi ar ôl hynny. Pan ofynnwyd pam nad oedd hyn yn digwydd, dywedwyd wrthym bod y model arlwyo newydd ar y ward yn golygu mai dim ond y nifer cywir o brydau a oedd yn cael eu hailbaratoi a bod nifer yr eitemau bwyd heb eu gweini yn ddibwys. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei hun bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi, hyd yn oed pan fydd canfyddiad nad oes gwastraff. |
| A yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau diogelwch bwyd wedi'u cryfhau? | **Mae staff wardiau yn parhau i gydymffurfio ag arferion hylendid bwyd sylfaenol ond mae cydymffurfiaeth wael â'r pecyn e-ddysgu MUST yn golygu nad yw'r staff nyrsio'n defnyddio'r canllawiau cyffredinol ar hylendid bwyd.**<br>Canfu ein hadroddiad yn 2010 er bod staff wardiau yn cydymffurfio ag arferion hylendid bwyd sylfaenol, bod cyfle i ddarparu canllawiau syml. Nododd canfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal yn 2011 fod 35 y cant o staff nyrsio wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol. Mae'r pecyn e-ddysgu ar ddefnyddio MUST a siartiau bwyd Cymru gyfan, a gyflwynwyd yn 2011, yn cynnwys adran ar ymwybyddiaeth gyffredinol o hylendid bwyd i staff nyrsio. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar y pecyn e-ddysgu yn fach, felly nid yw'r staff nyrsio'n defnyddio'r canllawiau cyffredinol sydd ar gael. Yn y cyfamser, mae cynorthwy-ydd arlwyo'r ward yn cael hyfforddiant gloywi rheolaidd mewn hylendid bwyd bob dwy flynedd. Drwy arsylwi un pryd bwyd yn cael ei weini, canfuwyd bod cynorthwy-ydd arlwyo'r ward a'r staff nyrsio yn dilyn arferion hylendid bwyd diogel amser bwyd drwy olchi eu dwylo a gwisgo dillad amddiffynnol, h.y. ffedogau a menig fel y bo'n briodol a bod tymheredd pob cynnyrch bwyd yn cael ei gofnodi cyn dechrau gweini.<br>Mae pob gwasanaeth arlwyo mewn ysbytai yn cael 'sgôr hylendid' pan gaiff ei arolygu gan swyddog diogelwch bwyd o'r awdurdod lleol. Dengys sgôr hylendid i ba raddau y mae'r gwasanaethau arlwyo'n bodloni gofynion cyfreithiau hylendid bwyd. Mae'r gwasanaeth arlwyo'n cael un o chwe sgôr, o sero i bump:<br>• 0 - Angen gwelliannau ar fyrder<br>• 1 – Angen gwelliannau sylweddol<br>• 2 – Angen gwelliannau |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|
| | • 3 - Boddhaol ar y cyfan<br>• 4 – Da<br>• 5 - Da iawn<br>Mae'r sgorau hylendid bwyd bellach yn cael eu casglu'n rheolaidd fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynir i'r system EFPMS, sy'n galluogi ysbytai i gymharu perfformiad yn hawdd. Dyfarnwyd bod y gwasanaethau arlwyo yn YBM ac YTS yn 'dda'. |
| A gymerwyd camau i sicrhau bod profiad cleifion yn ystod amser bwyd ar bob ward yn un cadarnhaol? | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella profiadau cleifion yn ystod amser bwyd; mae cydymffurfiaeth â sicrhau bod amser bwyd wedi'i ddiogelu wedi gwella, ac mae staff nyrsio ar gael yn gyffredinol i helpu cleifion ar yr adeg gywir**<br>Dangosodd ein gwaith archwilio blaenorol fod y boddhad cyffredinol â gwasanaethau arlwyo'r ysbyty yn uchel ond y gellid gwella rhai agweddau ar amser bwyd, yn enwedig cydymffurfiaeth â'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu a sicrhau bod pob claf yn cael y cyfle i baratoi am ei brydau bwyd. Mae'r adran arlwyo'n parhau i ofyn am adborth rheolaidd gan gleifion am y gwasanaeth bwyd ac mae'r adborth a gasglwyd gan y gwasanaeth arlwyo'n awgrymu bod cleifion yn fodlon ar y cyfan. Nododd y staff nyrsio hefyd yr ymddengys fod nifer y cwynion am fwyd gan gleifion ar y ward wedi lleihau dros y ddwy flynedd diwethaf, a bod dewis ac ansawdd y prydau bwyd yn gwella.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno bwydlen dymhorol newydd sy'n cynnig mwy o amrywiaeth o seigiau a phrydau bwyd i gleifion ac sy'n cydymffurfio â safonau diwygiedig maeth ac arlwyo Cymru gyfan ar gyfer bwyd a diod i gleifion preswyl mewn ysbytai, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011. Mae'r fwydlen bellach yn cynnig prydau bwyd ysgafnach amser cinio lle mae'r bwlch rhwng brecwast a chinio yn gymharol fyr (pedair awr), a phryd o fwyd mwy sylweddol gyda'r hwyr lle mae'r bwlch rhwng swper a brecwast yn fwy na 14 awr. Mae'r newid bach hwn yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan gleifion am y bwlch hir rhwng swper a brecwast a amlygwyd yn ein harchwiliad blaenorol. Ar y ward yr ymwelwyd â hi, bydd cynorthwy-ydd arlwyo'r ward, drwy gydweithio â'r staff nyrsio, yn helpu cleifion i ddewis pryd o fwyd addas o'r fwydlen dymhorol yn seiliedig ar ddewis ac anghenion maethol. Er bod y fwydlen newydd wedi'i lamineiddio ac yn cael ei rhoi wrth wely'r cleifion, mae staff y wardiau'n credu nad yw'r rhan fwyaf o gleifion yn edrych arni. |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|
| | Cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei *Addewid Urddas* ym mis Mawrth 2011. Mae'r *Addewid Urddas* yn rhestru 16 o addewidion ac mae pedwar ohonynt yn gysylltiedig ag amser bwyd, yn arbennig rhoi trefniadau ar waith sicrhau bod amser bwyd wedi'i ddiogelu, rhoi cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn prydau bwyd, cynorthwyo cleifion i fod mewn safle cyfforddus i fwyta, yn ogystal â sicrhau bod prydau a diodydd o fewn cyrraedd a rhoi cymorth i'r rhai y mae angen cymorth arnynt i fwyta, gan gynnwys croesawu perthnasau a gofalwyr i gynnig help llaw.Roedd yr *Addewid Urddas* wedi'i arddangos yn amlwg ar y ward yr ymwelwyd â hi fel rhan o'r archwiliad. Caiff cleifion wybod am yr *Addewid Urddas* fel rhan o'r broses o'u derbyn i'r ysbyty a chedwir copi gyda'r ddogfennaeth nyrsio ger gwely'r claf.Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi addasu taflen Cymdeithas Alzheimer *Dyma fi* i'w defnyddio yn amgylchedd y ward i sicrhau bod gwybodaeth megis dewisiadau bwyd yn gallu cael ei rhannu'n haws rhwng y claf a staff y ward.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu canllawiau i staff nyrsio ynglŷn ag amser bwyd. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r disgwyliad bod cynlluniau gwelyau sy'n nodi prydau bwyd, gan ddangos gofynion cleifion, e.e. deiet piwrî, yn cael eu cwblhau bob bore gan y nyrs â gofal a'u rhannu â'r cynorthwy-wyr arlwyo mor gynnar â phosibl, gyda newidiadau i'r cynllun gwely'n cael eu cyfathrebu drwy gydol y dydd. Yn ogystal, dengys cyfweliadau â staff y wardiau mai dyma'r arfer ac roedd y bwrdd gwyn yn cael ei ddefnyddio ar ddiwrnod ein hymweliad â'r ward. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai nyrs ddynodedig fod gyda'r cynorthwy-wyr arlwyo pan fydd prydau bwyd yn cael eu gweini i sicrhau bod cleifion yn barod i gael eu bwyd ac na ddylid rhoi pryd bwyd i'r rhai y mae angen cymorth arnynt oni bai bod nyrs ar gael i helpu.Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno hyrwyddwyr gofal maeth ar y wardiau i sicrhau bod y canllawiau hyn yn dod yn rhan annatod o'r drefn.<br><br>Drwy arsylwi’r gwasanaeth prydau bwyd, gwelsom fod y staff nyrsio ac arlwyo'n cydweithio'n dda i ddarparu gwasanaeth prydau bwyd effeithlon, yn benodol:<br>• roedd cleifion yn cael help i wneud eu hunain yn gyfforddus yn barod am eu cinio, gyda chleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo;<br>• roedd yr holl staff nyrsio'n barod i gynorthwyo'r cynorthwy-ydd arlwyo pan fyddai'r troli bwyd yn cyrraedd y ward, gan roi'r prydau bwyd i'r cleifion ac yna fynd ati ar unwaith i gynorthwyo'r cleifion hynny a oedd ag anawsterau bwyta neu'r rhai yr oedd angen anogaeth arnynt. |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
| --- | --- |
| | Roedd cydymffurfiaeth lawn ag amser bwyd wedi'i ddiogelu – roedd yr holl staff arall yn gadael y ward ac nid oeddent yn dychwelyd tan ar ôl i'r pryd bwyd gael ei weini, tuag awr yn ddiweddarach.<br>Nododd canfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal yn 2011 fod y rhan fwyaf o gleifion yn cael cymorth ac nad oedd dim i darfu arnynt yn ystod eu prydau bwyd. At hynny, dangosodd archwiliadau ar hap y Bwrdd Iechyd ei hun o urddas, amser bwyd wedi'i ddiogelu a sgrinio maethol ar draws sampl o wardiau ar ddechrau 2012 y canlynol:<br>• Roedd cleifion yn cael cymorth i baratoi ar gyfer prydau bwyd ond nid oedd gan bob claf fynediad i gadachau dwylo cyn neu ar ôl prydau bwyd ac ni chynigiwyd dewisiadau eraill.<br>• Ar rai wardiau, gwelwyd bod rhai staff nyrsio'n cael egwyl pan oedd bwyd yn cael ei weini yn hytrach na gweithio gyda'r staff arlwyo ar y ward i ddosbarthu'r prydau bwyd.<br>• Roedd y cleifion yr oedd angen cymorth neu anogaeth arnynt i fwyta yn cael hynny ond weithiau byddai'r prydau bwyd yn cael eu gweini i gleifion yr oedd angen cymorth arnynt cyn bod y staff nyrsio'n barod i'w cynorthwyo, neu cyn eu bod yn gallu eu cynorthwyo.<br>Gwelwyd perthnasau a gofalwyr yn helpu cleifion i fwyta.<br>• Nid oedd cydymffurfiaeth lawn ag amser bwyd wedi'i ddiogelu yn amlwg bob tro ond disgrifiwyd bod amgylcheddau'r wardiau, ac eithrio'r unedau asesu meddygol, yn annog cleifion i fwyta. Y rheswm pam na chafwyd cydymffurfiaeth lawn oedd bod aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol – meddygon, ffisiotherapyddion, ac ati – ar y ward pan fyddai'r prydau bwyd yn cael eu gweini, ond sicrhawyd bod cyn lleied o darfu â phosibl. Ar gyfer y cleifion hynny a adawodd y wardiau amser bwyd er mwyn cael profion neu ymchwiliadau, gwnaed trefniadau eraill er mwyn gweini pryd arall iddynt. Ac ar rai wardiau, roedd staff nyrsio yn cynnal rowndiau meddyginiaeth pan fyddai'r prydau'n cael eu gweini.<br>Mae'r gwasanaeth arlwyo ar wardiau yn parhau i gael ei gyflwyno yn YTS wrth i'r wardiau gael eu hadnewyddu. Croesawyd y model arlwyo newydd hwn ar y ward yr ymwelwyd â hi. Nododd y staff nyrsio fod y model newydd hwn yn rhoi mwy o amser iddynt helpu cleifion i fwyta am nad oeddent bellach yn gorfod gweini'r prydau bwyd. Mae'r model newydd hwn hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran dechrau amser bwyd i weddu i anghenion cleifion oherwydd bod y broses 'ailgynhyrchu' yn cael ei rheoli gan gynorthwy-ydd arlwyo'r ward. Er enghraifft, ar y ward yr ymwelsom â hi, cafodd y pryd bwyd amser cinio ei weini hanner awr ar ôl y rhan fwyaf o wardiau eraill. |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|
| A yw cydymffurfiaeth â sgrinio maethol a chynllunio gofal wedi gwella? | **Ceir gwelliannau o ran gofal maethol gyda chleifion yn cael eu sgrinio pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty ond nid oes cynlluniau gofal maeth bob amser ar waith ac mae cydymffurfiaeth â'r pecyn e-ddysgu MUST yn wael**<br>Canfu ein harchwiliad blaenorol nad oedd pob claf yn cael ei sgrinio mewn perthynas â risg faethol wrth gael ei dderbyn i'r ysbyty, nid oedd y wybodaeth a gofnodwyd fel rhan o'r broses sgrinio bob amser yn gynhwysfawr ac nid oedd cynlluniau gofal maeth ar waith ar gyfer pob claf. Fel rhan o'n gwaith dilynol, adolygwyd nodiadau achos pum claf i asesu a gynhaliwyd sgrinio maethol ac a oedd cynllun gofal maeth ar waith.<br>Yn 2010, canfuwyd nad oedd dogfennaeth yr asesiad nyrsio'n gofyn i staff nyrsio am ddisgrifiad manwl o'r problemau a nodwyd. Mae dogfennaeth nyrsio ddiwygiedig - *asesiad nyrsio wrth dderbyn claf i'r ysbyty* - wedi cael ei chyflwyno ac yn ôl y staff nyrsio a holwyd gennym mae hyn wedi safoni'r broses. Fodd bynnag, erys y diffyg ysgogiadau am wybodaeth fanylach, yn enwedig mewn perthynas â 'maeth'. Mae staff nyrsio'n parhau i roi cylch o amgylch ie neu na i gyfres o gwestiynau byr, megis 'a oes angen cymorth arno/arni i fwyta' ond nid oes ysgogiad i gofnodi disgrifiad o'r cymorth sydd ei angen. Er bod nifer o gamau gweithredu nyrsio rhagnodedig ar gynllun gofal MUST sy'n cynnwys nodi'r cymorth sydd ei angen, nid yw'n glir lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.<br>Nododd yr adolygiad o'r pum set o nodiadau achos fod yr holl gleifion wedi'u sgrinio pan gawsant eu derbyn i'r ysbyty drwy ddefnyddio'r offeryn MUST ac roedd tystiolaeth bod yr holl gleifion wedi cael eu hailsgrinio ar y cyfnodau priodol. Ni waeth beth yw'r sgôr MUST, dylid rhoi cynllun gofal maethol ar waith. Canfuwyd bod cynllun gofal ar waith ar gyfer tri yn unig o'r pum set o nodiadau achos a adolygwyd, ac mae hyn yn debyg i'n canfyddiadau yn 2010. Roedd y ddau glaf nad cynllun gofal maeth ar waith ar eu cyfer wedi cael eu hasesu fel rhai â risg uchel o ran maeth; fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod y bwyd yr oeddent yn ei fwyta'n cael ei fonitro a'i gofnodi.<br>Mae canfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal a gyhoeddwyd yn 2011 yn dangos bod perfformiad mewn perthynas â Safonau 9 – Bwyta ac Yfed – wedi parhau i wella rhwng 2009 a 2011, a bod angen gwell mynediad i therapyddion lleferydd ac iaith i gynnal asesiadau llyncu pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty ond roedd cynlluniau'n cael eu datblygu i ddarparu hyfforddiant i nyrsys cofrestredig i'w galluogi i gynnal yr asesiadau. Yn ogystal, nodwyd bod hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol i staff nyrsio yn faes i wella arno. Dangosodd archwiliadau ar hap y Bwrdd Iechyd ei hun o urddas, amser bwyd wedi'i ddiogelu a sgrinio maethol ar draws sampl o wardiau ar ddechrau 2012 y canlynol:<br>• Roedd asesiadau maethol drwy ddefnyddio'r offeryn MUST yn gyffredinol yn cael eu cynnal ar bob claf, ond mewn rhai achosion nid oedd pob claf yn cael ei bwyso pan oedd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu nid oedd yn cael ei bwyso mor aml ag y dylai ar ôl cael ei asesu fel unigolyn â risg ganolig neu risg uchel.<br>• Roedd siartiau bwyd yn cael eu cwblhau'n briodol. |

| Materion | Canfyddiadau manwl y gwaith archwilio dilynol |
|---|---|
| | Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn e-ddysgu ym mis Medi 2011, y gellir cael mynediad iddo drwy borth nyrsio'r GIG. Mae'r pecyn e-ddysgu'n canolbwyntio ar faeth cleifion, yn arbennig yr offeryn MUST a'r defnydd o siartiau bwyd Cymru gyfan. Roedd disgwyl i'r holl staff nyrsio ar wardiau gwblhau'r pecyn hyfforddi e-ddysgu o fewn 12 mis i'w gyflwyno a byddai staff nyrsio newydd yn ei gwblhau o fewn 12 mis iddynt ddechrau gweithio. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi mai 10 y cant yn unig o'r staff nyrsio sydd wedi cofrestru ar y pecyn e-ddysgu a/neu wedi ei gwblhau. Y rhesymau a nodwyd am ddiffyg cydymffurfiaeth oedd diffyg amser wedi'i neilltuo i gynnal yr hyfforddiant a mynediad araf i'r pecyn hyfforddi ar-lein. Rhoddir diweddariad ar yr hyfforddiant e-ddysgu ym mhob un o gyfarfodydd y grŵp arlwyo a maeth (sy'n adrodd i'r pwyllgor risg corfforaethol a'r pwyllgor llywodraethu integredig adrannol) ond prin yw'r camau gweithredu dilynol amlwg.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi perthnasol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai a'u cynnwys ar fewnrwyd o'r enw *Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai*. Dylai'r wefan fod yn hygyrch i bob ward drwy Borth Gwybodaeth Nyrsio Cymru Gyfan ond dywedodd y staff nyrsio a holwyd fod ceisio cael mynediad i'r wefan yn cymryd gormod o amser – h.y. cyflymder y cysylltiad – ond nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau ar ôl llwyddo i gysylltu'r â'r wefan. |

# Atodiad 2

## Argymhellion a wnaethpwyd yn 2011

Mae'r tabl isod yn cynnwys argymhellion ein hadroddiad archwilio gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2010.

| | |
|---|---|
| **Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer y gwasanaethau arlwyo a maeth yn mynd i'r afael â'r canlynol:** | |
| A1 | Archwilio'r rhesymau pam mae costau arlwyo fesul diwrnod claf yn uwch na'r cyfartaledd drwy:<br>• feincnodi niferoedd a chostau staff arlwyo;<br>• asesu cost-effeithiolrwydd oriau agor y bwyty staff/ymwelwyr yn YBM;<br>• archwilio pa mor gadarn yw'r fformiwla a ddefnyddir i brisio cynnyrch ar gyfer staff ac ymwelwyr; ac<br>• adolygu strwythurau prisio yn y bwyty staff/ymwelwyr ac wrth wneud hynny, dod i benderfyniad eglur ynghylch lefel y costau sydd i'w hadennill o'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. |
| A2 | Adolygu'r rhagdybiaethau sy'n sail i gyflwyno'r model coginio a rhewi yn YTS er mwyn cymharu costau rhagamcanol â'r rhai a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. |
| A3 | Asesu'r systemau monitro a chofnodi gwastraff drwy:<br>• wella'r broses o lenwi taflenni tymheredd ar gyfer pob cynnyrch bwyd, nid dim ond y bwyd sy'n cael ei ailbaratoi ar y ward; ac<br>• archwilio'r rhesymau dros ail-baratoi gormod o fwyd os yw lefelau gwastraff yn uwch na throthwy penodedig. |
| A4 | Gwella profiad y claf drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gwelyau yn cael eu llenwi o leiaf bob dydd;<br>• parhau i hyrwyddo polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu ymysg grwpiau ehangach o staff;<br>• sicrhau bod staff y wardiau'n neilltuo amser i helpu cleifion i baratoi ar gyfer eu prydau;<br>• cyflwyno'r rôl estynedig i staff arlwyo ar y ward os yw'r cynllun treialu'n llwyddiannus;<br>• sicrhau bod y llyfryn gwybodaeth i gleifion ar gael i gleifion a'u bod yn deall y wybodaeth sy'n amlinellu trefniadau'r gwasanaethau arlwyo, er enghraifft a ddefnyddir cardiau bwydlenni, ac a oes byrbrydau ar gael;<br>• diwygio'r llyfryn gwybodaeth i gleifion maes o law i gynnwys y rhesymau pam mae cleifion yn cael eu hannog i beidio dod â'u bwyd eu hunain i'r ysbyty; ac<br>• ystyried y safbwyntiau llai ffafriol a fynegwyd gan y cleifion a ymatebodd i'n harolwg â mynd i'r afael â hwy. |

| | |
|---|---|
| A5 | Sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau diogelwch bwyd drwy:<br>• sicrhau bod yr holl staff arlwyo a phawb sy'n trin bwyd yn derbyn yr hyfforddiant hylendid bwyd angenrheidiol; a<br>• datblygu canllawiau hylendid bwyd sylfaenol i staff y wardiau sy'n sail i bolisïau a gweithdrefnau gwasanaethau arlwyo ar y ward. |
| A6 | Gwella cydymffurfiaeth â'r broses sgrinio maethol a chynllunio gofal drwy:<br>• archwilio'r rhesymau dros fethu â chydymffurfio gyda staff nyrsio;<br>• darparu canllawiau syml ar sut i ddefnyddio'r offeryn sgrinio risg faethol;<br>• cofnodi mwy o fanylion am iechyd maethol cleifion ar y ffurflen Asesiad Nyrsio wrth Dderbyn/24 awr; ac<br>• ystyried archwilio cydymffurfiaeth â phrosesau sgrinio maethol a pha mor gynhwysfawr yw cynlluniau gofal yn rheolaidd. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk